Datganiad Wasg

Helpu i lunio'r dyfodol Help tomorrow take shape

20 Hydref 2009

Nid yw'n rhy hwyr i gymryd rhan yn ymarfer y cyfrifiad ar Ynys Môn

Er bod diwrnod Ymarfer 2009 y Cyfrifiad ar Ynys Môn wedi mynd heibio erbyn hyn, nid yw'n rhy hwyr i breswylwyr lenwi a dychwelyd eu holiaduron a fydd yn helpu i lunio'r cyfrifiad nesaf yn 2011.

Gwahoddwyd aelodau o 33,885 o gartrefi ar yr ynys i gymryd rhan yn yr ymarfer, a fydd yn rhoi ar brawf yr holiadur ar-lein newydd a'r system o ddosbarthu holiaduron papur drwy'r post y bwriedir eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Bydd preswylydd lleol, Ella Michael, yn mynd o ddrws i ddrws yn ddiweddarach yr wythnos hon fel rhan o dîm o gasglwyr swyddogol y cyfrifiad. "Gan ddechrau ddydd Mercher mi fydda i'n ymweld ag aelodau cartrefi ar yr ynys nad ydynt wedi dychwelyd eu holiaduron. Mi fydda i hefyd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am yr ymarfer ac yn eu helpu i lenwi'r holiadur.

"Er nad yw cymryd rhan yn orfodol, rydym yn gobeithio y gallem annog cymaint o bobl â phosibl i fod yn rhan o rywbeth sy'n bwysig iawn i ddyfodol ein cymuned."

Bydd cerdyn adnabod swyddogol gan holl gasglwyr y Cyfrifiad.

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Anfonwyd gan
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Cyswllt
Swyddfa'r Cyfryngau
01329 44 7654

E-bost
2011censusmedia@ons.gsi.gov.uk

Ymlewch â
www.census.gov.uk/Media

Defnyddir y cyfrifiad i amcangyfrif poblogaeth Cymru a Lloegr ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn ei gynnal bob deng mlynedd. Caiff y wybodaeth a roddir ei thrin yn gyfrinachol a'i diogelu gan y gyfraith.

Siaradodd llefarydd o Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â phwysigrwydd cefnogi Ymarfer 2009 y Cyfrifiad, gan ddweud: "Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn rhoi darlun unigryw i ni y gallwn ei ddefnyddio i'n helpu i gynllunio gwasanaethau lleol a dyrannu arian yn ein cymuned. Er enghraifft, mae penderfynu ar nifer yr athrawon a'r meddygon sydd eu hangen a chynllunio trafnidiaeth gyhoeddus yn dibynnu ar y nifer a'r math o bobl sy'n byw yn y gymuned leol."

Dywedodd Cyfarwyddwr SYG y Cyfrifiad, Glen Watson: "Rydym yn dibynnu ar gydweithrediad y cyhoedd er mwyn sichrau llwyddiant yr ymarfer, felly efallai y byddwch wedi derbyn nodyn i'ch atgoffa a'ch annog i gymryd rhan. Efallai y bydd aelod o staff y cyfrifiad yn ymweld â chi hefyd.

"Mae'n bwysig atgoffa aelodau'r gymuned o'r ymarfer a chynnig y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Nid yw'n rhy hwyr i lenwi holiadur y cyfrifiad a'i ddychwelyd atom neu ei lenwi ar lein. Bydd cynnal ymarfer llwyddiannus yn ein helpu i wneud yn siŵr y cawn gyfrifiad o safon yn 2011. "

Ffeithiau am Ymarfer 2009 y Cyfrifiad:

- Cynhelir yr ymarfer mewn tair ardal - Ynys Môn, Caerhirfryn, a bwrdeistref Newham yn Llundain
- Gofynnwyd i aelodau cyfanswm o tua 140,000 o gartrefi yn yr ardaloedd hyn gymryd rhan yn ymarfer y cyfrifiad
- Mae'r ardaloedd hyn yn cynrychioli croestoriad o'r boblogaeth ac yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o dai
- Ar yr un pryd â'r ymarfer cynhelir prawf ar raddfa fach yn Birmingham
- Mae'r prawf yn Birmingham yn cynnwys 17,000 o gyfeiriadau ac mae'n yn defnyddio rhai o'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n cael eu dilyn fel rhan o'r ymarfer
- Gofynnir yr un cwestiynau i bawb ar yr un diwrnod er mwyn cael cipolwg o'r boblogaeth ar un adeg
- Mae'r cyfrifiad yn hawdd ei lenwi, yn gyfrinachol a gellir ei lenwi ar lein am y tro cyntaf
- Ni chyhoeddir canlyniadau'r ymarfer ond fe'u defnyddir i wella gweithdrefnau ar gyfer 2011
- Mae cyfanswm o 57 o gwestiynau yng Nghymru, 14 yn ymwneud â'r cartref a'i ystafelloedd a 43 o gwestiynau ar gyfer pob aelod unigol o'r cartref i'w llenwi
- Gellir ateb y rhan fwyaf o gwestiynau drwy nodi tic
- Mae cymryd rhan yn Ymarfer 2009 y Cyfrifiad a'r prawf yn Birmingham yn wirfoddol. Bydd yn ofynnol i bawb gymryd rhan yng Nghyfrifiad 2011

Am ragor o wybodaeth am Ymarfer 2009 y Cyfrifiad neu i ofyn am gopi o gwestiynau'r cyfrifiad mewn Braille neu ieithoedd eraill, ewch i www.cyfrifiad.gov.uk neu www.census.gov.uk neu ffoniwch 0300 0200 930.

Ceir hefyd glipiau fideo Iaith Arwyddion Prydain a recordiadau sain ar y safle.